

Rhif: WG40703.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Ymgynghoriad ar y Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion Penodedig) (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 arfaethedig

Dyddiad cyhoeddi: 7 Medi 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 2 Tachwedd 2020

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am sylwadau ar y Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion Penodedig) (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 drafft

Sut mae ymateb

Gellir anfon ymatebion drwy e-bost neu eu hanfon yn uniongyrchol at:
E-bost: [PlantSynDerbynGofal / LookedAfterChildren
PlantSynDerbynGofal@llyw.cymru](mailto:PlantSynDerbynGofal@llyw.cymru)

Rhagor o wybodaeth, a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth neu i wneud ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at:
PlantSynDerbynGofal@llyw.cymru

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data dros unrhyw ddata personol yr ydych yn ei ddarparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn ac a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â sut i arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi mwy ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'n bosibl y bydd trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) yn cael ei gomisiynu i gyflawni'r gwaith hwn. Dim ond o dan gcontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym o ran prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael ei gyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata amdanoch sy'n cael eu dal fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am ddim mwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych chi hawl:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, ac i gael gweld y data hynny
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu atal prosesu (mewn rhai amgylchiadau)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn rhai amgylchiadau)
- i gludo data (mewn rhai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad GDPR, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:
Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123
1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Beth yw pwrpas yr ymgynghoriad hwn?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn pobl ar y newidiadau arfaethedig a gyflwynir gan Reoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion Penodedig) (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2020. Bydd y Rheoliadau hyn yn arwain at newidiadau i'r Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) ar gyfer penderfyniadau cymhwysol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori, a fydd yn helpu i siapio'r broses derfynol a fydd yn disodli'r IRM ac yn cyfrannu at gwblhau'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion Penodedig) (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2020.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal rhwng 7 Medi a 2 Tachwedd 2020.

Darperir ffurflen ymateb ar ddiwedd y ddogfen hon.

1. Cyflwyniad

Mae'r IRM yn rheoli'r broses lle gall darpar fabwysiadwyr neu fabwysiadwyr cymeradwy, a darpar rieni maeth neu ddarpar rieni maeth cymeradwy, ofyn am adolygiad o 'benderfyniad cymhwysol' a wneir gan ddarparwr mabwysiadu neu faethu. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol a darparwr annibynnol.

Gwneir penderfyniadau cymhwysol pan fo asiantaeth yn bwriadu peidio â chymeradwyo unigolyn fel rhiant maeth neu ddarpar fabwysiadwr, neu derfynu telerau cymeradwyaeth yr unigolyn neu, yn achos rhiant maeth, newid y telerau hynny. Gall yr IRM hefyd ystyried ceisiadau am ddatgeliad mabwysiadu, lle mae asiantaeth yn cynnig bod gwybodaeth a ddiogelir o gofnodion mabwysiadu yn cael ei datgelu neu ei dal yn ôl, yn groes i farn y sawl mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef.

Er mwyn cyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau, rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru i ofyn am farn pobl ar y dull presennol ar gyfer penderfyniadau cymhwysol ac rydym wedi cynnal dau ymgynghoriad ar wahân (ar gyfer mabwysiadu a maethu) i ofyn am adborth manylach. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghoriadau hyn ar gael yn adran 6.

2. Cefndir

Cyflwynwyd Adolygiadau Annibynnol o Benderfyniadau ynghylch mabwysiadu am y tro cyntaf yn 2006, ar ôl i Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ddod i rym. Yn 2010, fe'u hystynnwyd i gynnwys maethu hefyd. Rheolir y broses adolygu bresennol gan Reoliadau Adolygu Penderfyniadau Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, ar ôl cael cais am adolygiad, ffurfio panel a nodi aelodaeth a swyddogaethau'r panel adolygu, a'r amserlen fydd yn cael ei dilyn.

Sefydlwyd yr IRM yn 2010 i reoli'r broses lle gall darpar fabwysiadwyr neu ddarpar fabwysiadwyr cymeradwy, a darpar ofalwyr maeth neu ofalwyr maeth presennol, ofyn am adolygiad o 'benderfyniad cymhwysol' a wnaed naill ai gan eu darparwr gwasanaethau mabwysiadu neu faethu, boed yn asiantaeth annibynnol neu'n awdurdod lleol.

Mae gan yr IRM dair swyddogaeth mewn perthynas â mabwysiadu:

- ystyried argymhelliad a wnaed o dan Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 nad yw'r ceisydd yn addas i fabwysiadu plentyn;
- ystyried argymhelliad a wnaed o dan Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 nad yw'r ceisydd yn addas i fabwysiadu plentyn bellach;
- ystyried argymhelliad a wnaed o dan Reoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005.

Mae gan yr IRM dair swyddogaeth mewn perthynas â maethu:

- adolygu cynnig o dan Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018 (Rheoliadau 2018) i beidio â chymeradwyo ceisydd fel un sy'n addas i weithredu fel rhiant maeth
- adolygu cynnig o dan Reoliadau 2018 i ddiwygio telerau cymeradwyo rhiant maeth presennol
- adolygu cynnig o dan Reoliadau 2018 nad yw'r rhiant maeth yn addas i weithredu fel rhiant maeth bellach.

Cynhelir y broses adolygu gan banel adolygu sy'n gwbl annibynnol ar y darparwr gwasanaethau maethu neu'r asiantaeth fabwysiadu dan sylw. Swyddogaeth y panel adolygu annibynnol yw ystyried pob achos o'r newydd a gwneud argymhelliad i'r darparwr gwasanaethau maethu neu'r asiantaeth fabwysiadu. Nid proses apelio mo hon, ac **ni all** y panel adolygu wrthdroi penderfyniad cymhwysol yr asiantaeth faethu na'r asiantaeth fabwysiadu. Y darparwr gwasanaethau maethu neu'r asiantaeth fabwysiadu sy'n gwneud y penderfyniad terfynol o hyd.

Mae'r IRM yn hyrwyddo hawliau plant drwy ddarparu rhieni sy'n mabwysiadu neu rieni maeth addas i blant. Mae mabwysiadu'n darparu amgylchedd teulu sefydlog i rai o'r plant mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, ac mae maethu yn darparu lleoliadau sefydlog i blant a phobl ifanc a fyddai fel arall mewn perygl o gael eu gwahardd, o wynebu tlodi ac o gael llai o gyfleoedd bywyd. Polisi Llywodraeth Cymru yw annog pobl o amrywiaeth o gefndiroedd i ystyried maethu neu fabwysiadu, a hefyd annog mwy o leoliadau Cymraeg eu hiaith. Drwy ddarparu mecanwaith adolygu annibynnol pan fydd telerau cymeradwyo darpar ofalwr neu fabwysiadwr yn cael eu newid neu eu terfynu, neu pan fydd cais yr unigolyn yn cael ei wrthod, mae'r IRM yn helpu i sicrhau nad oes neb yn cael ei eithrio heb ystyriaeth ac adolygiad priodol.

3. Datgelu mabwysiadu

Dan Reoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005, gall yr IRM hefyd ystyried ceisiadau am ddatgeliadau mabwysiadu lle mae asiantaeth fabwysiadu yn cynnig bod gwybodaeth a ddiogelir o gofnodion mabwysiadu yn cael ei datgelu neu ei dal yn ôl, yn groes i farn y sawl mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef. Dim ond mewn perthynas â mabwysiadu a ddigwyddodd ar 30 Rhagfyr 2005 neu ar ôl hynny y mae'r drefn a sefydlwyd gan y Rheoliadau hyn yn gymwys. Yng nghyswllt unigolion a fabwysiadwyd cyn y diwrnod hwnnw, mae Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983 (O.S.1983/1964) yn parhau i gael effaith (drwy ddarpariaethau arbed).

Diffinnir gwybodaeth a ddiogelir fel gwybodaeth a gedwir gan asiantaeth fabwysiadu, sy'n ymwneud ag unigolyn a fabwysiadwyd ac yn cynnwys gwybodaeth sy'n datgelu

pw yw'r unigolyn hwnnw. Gall penderfyniad cymhwysol mewn perthynas â datgelu gynnwys:

- penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â chais am ddatgelu gwybodaeth warchoddedig, am ba reswm bynnag;
- penderfyniad i beidio â datgelu gwybodaeth warchoddedig i'r ceisydd, er bod y person dan sylw wedi cytuno i'w datgelu;
- penderfyniad i ddatgelu gwybodaeth lle bo'r unigolyn mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef wedi mynegi nad yw am i'r wybodaeth gael ei datgelu (y ceisydd yw testun yr wybodaeth yn yr achos hwn).

Os yw oedolyn a fabwysiadwyd ar neu ar ôl 30 Rhagfyr 2005, neu berthynas naturiol i rywun a fabwysiadwyd ar neu ar ôl Rhagfyr 30 2005, wedi cael penderfyniad cymhwysol nad yw'n cytuno ag ef gan yr asiantaeth fabwysiadu mewn perthynas â'r cais am ddatgelu gwybodaeth, caiff wneud cais i'r IRM am adolygu penderfyniad cymhwysol yr asiantaeth fabwysiadu

Bydd adolygiad yn cael ei gynnal gan banel adolygu sy'n annibynnol ar yr asiantaeth fabwysiadu. Bydd y panel adolygu yn gwneud argymhelliad newydd i'r asiantaeth ynghylch a ddylai'r asiantaeth fwrw ymlaen â'i phenderfyniad gwreiddiol ai peidio. Ni all wrthdroi penderfyniad yr asiantaeth fabwysiadu gan nad yw'r IRM yn broses apelio

4. Trefniadau Contractio Presennol

O 1 Ebrill 2010 ymlaen, rhoddodd Llywodraeth Cymru contract allanol i'r IRM i gadw annibyniaeth weithredol. Plant yng Nghymru sy'n rheoli'r IRM ar hyn o bryd, dan contract â Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am yr IRM ar gael yn <http://irm.cymru/>. Mae'r safle hwn wedi'i ysgrifennu ar gyfer ymgeiswyr ac asiantaethau, ac mae'n esbonio'r gwahanol fathau o benderfyniadau cymhwysol, y broses ymgeisio a'r hyn y mae paneli'r IRM yn ei wneud. Mae hefyd yn cynnwys adroddiadau blynyddol yr IRM.

5. Yr achos dros newid

Cyflwynwyd Adolygiadau Annibynnol o Benderfyniadau am y rhesymau canlynol:

- i gynyddu hyder y cyhoedd yn nhryloywder y broses gymeradwyo ar gyfer darpar rieni maeth a mabwysiadwyr,
- i gyflwyno elfen annibynnol i'r broses adolygu, ac
- i annog mwy o bobl i ystyried maethu a mabwysiadu.

Ers 2010 mae'r IRM wedi cael contract allanol yn amodol ar broses dendro gystadleuol sy'n rhoi ystyriaeth ofalus i gost gyffredinol a gwerth am arian rhedeg y gwasanaeth yn unol â'r Rheoliadau.

Gofynnwyd am farn ar ddyfodol adolygiadau annibynnol o benderfyniadau a'r Mekanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) fel rhan o ddau ymgynghoriad, gan gynnwys:

- Ymgynghoriad ar ddrafft Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019, a gynhaliwyd rhwng 24 Mai ac 16 Awst 2018; ac

- Ymgynghoriad ar ddrafft Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019, a gynhaliwyd rhwng 4 Medi 2018 a 27 Tachwedd 2018.

Gofynnwyd am farn ynghylch a oes angen cadw system o adolygiadau annibynnol yn y tymor hwy, neu a oes mecanweithiau amgen y gellid eu sefydlu i sicrhau bod rhieni maeth / darpar rieni maeth sy'n anghytuno â phenderfyniadau ynghylch eu telerau cymeradwyo yn gallu mynegi eu barn.

Roedd canfyddiadau'r ddau ymgynghoriad yn debyg iawn ac roedd y mwyafrif o blaid disodli'r IRM â system unioni arall.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod – drwy adborth gan ymgeiswyr, aelodau o baneli ac asiantaethau maethu a mabwysiadu – bod yr IRM yn cael ei werthfawrogi am ei annibyniaeth a'i rôl o ran sicrhau ansawdd penderfyniadau a wneir gan baneli maethu a mabwysiadu. Mae ymgeiswyr yn arbennig o falch o dryloywder y broses adolygu a'r teimlad eu bod nhw a'u pryderon wedi cael eu clywed yn briodol. Mae canfyddiadau ac argymhellion paneli'r IRM hefyd yn cyfrannu at ddysgu ac arferion da ar gyfer ymarferwyr ac asiantaethau maethu a mabwysiadu.

Fodd bynnag, mae'r adborth a gafwyd wedi awgrymu bod yr IRM yn wasanaeth drud a biwrocraataidd i'w redeg mewn perthynas â'r nifer cyfyngedig o geisiadau a dderbynnir ac adolygiadau a gynhelir bob blwyddyn. Gan fod yr IRM yn cael ei arwain gan alw, mae gwir nifer y ceisiadau a'r adolygiadau'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer cyfyngedig y ceisiadau ac adolygiadau a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2020.

	10/11	11/12	12/13	13/14	14/15	15/16	16/17	17/18	18/19	19/20
Ceisiadau	11	11	12	12	13	5	8	12	8	12
Paneli Adolygu	8	8	8	8	8	5	6	9	5	8

Mae dwy ran i gostau'r IRM: elfen sefydlog i redeg y gwasanaeth, a chost fesul adolygiad. Er enghraifft - ar gyfer wyth adolygiad yn 2019-20, roedd cyfanswm cost y gwasanaeth tua £27,776 (mae hyn ar ben yr elfen gwasanaeth sefydlog flynyddol o £44,348).

Y prif bryder ymysg darparwyr gwasanaethau maethu ac asiantaethau mabwysiadu oedd gwerth am arian, ac a oedd achosion yn cael eu hadolygu'n ddiangen – h.y. bod hyn yn ffordd ddud o ddelio â materion y gellid rhoi sylw iddynt yn gynharach yn y broses asesu / gwneud penderfyniadau. Disgwylir i ddarparwyr gwasanaethau maethu ac asiantaethau mabwysiadu gyfrannu at gyfran o gostau'r adolygiad – £2,403 yr adolygiad ar hyn o bryd.

Cyflwynwyd amryw o resymau dros y nifer cyson isel o geisiadau am adolygiad, gan gynnwys:

- cysylltiadau ag asesiadau mwy cadarn a gwell prosesau gwneud penderfyniadau,

- mae rhai gweithdrefnau cwyno newydd nawr yn cynnwys elfen wirfoddol o annibyniaeth, sy'n rhoi llwybr amgen i ddarpar ymgeiswyr ar gyfer lleisio eu pryderon.

Nid yw'r IRM yn atal pobl rhag defnyddio gweithdrefnau cwyno darparwyr gwasanaethau maethu nac asiantaethau mabwysiadu, ac mae adborth gan baneli IRM yn awgrymu mai eu prif werth yw bod ymgeiswyr yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a bod eu pryderon yn cael eu clywed.

Hyd yma, ni chafwyd unrhyw geisiadau i'r IRM mewn perthynas â datgelu mabwysiadu. Mae'r Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion Penodedig) (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 arfaethedig yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ceisiadau am ddatgeliadau mabwysiadu.

6. Pa newidiadau ydyn ni'n eu cynnig?

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am farn pobl ar y newid arfaethedig i'r swyddogaeth IRM bresennol a ddaw i rym drwy Reoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion Penodedig) (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2020.

Bydd y newid hwn yn golygu diddymu Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010. Bydd hyn yn golygu y bydd yr hawl i adolygiad annibynnol yn cael ei ddileu a bydd angen i ddarpar rieni maeth neu fabwysiadwyr sy'n dymuno herio penderfyniadau cymhwysol (gan gynnwys ceisiadau am ddatgeliad mabwysiadu) ddibynnu ar weithdrefnau cwyno'r darparwr maeth neu asiantaeth fabwysiadu i wneud hyn. Bydd Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion Penodedig) (Diwygiadau Amrywiol a Dirymu) (Cymru) 2020 yn gwneud newidiadau i'r Rheoliadau maethu a mabwysiadu i sicrhau y gellir gwrando ar gwynion o'r fath, ac i warantu elfen annibynnol i'r broses gwyno.

Mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu a maethu gynnal gweithdrefnau cwyno o dan y rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019
- Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018
- Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019
- Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

Ar hyn o bryd, nid oes yr un o'r rheoliadau hyn yn mynnu bod darparwyr gwasanaeth yn cynnwys unrhyw elfen o annibyniaeth yn eu gweithdrefnau cwyno (er ein bod yn ymwybodol bod llawer o ddarparwyr gwasanaethau eisoes yn gwneud hynny). Nid yw'r darpariaethau presennol yn caniatáu i ddarpar riant maeth y gwrthodwyd ei gais wneud cwyn i'r darparydd gwasanaethau maethu chwaith.

Drwy ddisodli'r IRM â'r gallu i gwyno wrth y darparwr gwasanaeth, bydd Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion Penodedig) (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 yn sicrhau bod y gweithdrefnau cwyno yn ddigon cadarn i weithredu fel dewis amgen i'r IRM presennol. Bydd y Rheoliadau hyn yn:

- ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth sicrhau bod eu gweithdrefn gwyno yn cynnwys darpariaeth i ystyried cwynion am benderfyniadau penodedig (cwynion penodedig) sy'n cyfateb yn fras i'r penderfyniadau sy'n ffurfio penderfyniadau cymhwysol ar hyn o bryd;
- pennu bod y weithdrefn gwyno yn ei gwneud yn ofynnol bod person annibynnol yn cael ei benodi i weithio gyda'r darparwr a'r achwynydd i ymchwilio i'r gŵyn benodedig a'i datrys;
- ei gwneud yn ofynnol bod gan yr ymchwilydd annibynnol wybodaeth a phrofiad perthnasol i ystyried y gŵyn benodedig;
- caniatáu i ddarpar riant maeth y gwrthodwyd ei gais wneud cwyn benodol i'r darparwr gwasanaethau maethu;
- ei gwneud yn ofynnol bod y weithdrefn gwyno yn cynnwys darpariaeth sy'n nodi bod rhaid i berson sy'n gwneud cwyn benodedig gael gwybod am hynt yr ymchwiliad i'w gŵyn a bod rhaid darparu ymateb ysgrifenedig i'r person, sy'n crynhoi natur a sylwedd y gŵyn, y casgliadau ac unrhyw gamau i'w cymryd o ganlyniad i'r ymchwiliad.

Cwestiynau Ymgynghori, ffurflen ddychwelyd:

Enw:			
Sefydliad (os yw'n berthnasol):			
Eich cyfeiriad:			
e-bost / rhif ffôn:			
Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma	Ie:	Na:	

1. Pa heriau ydych chi'n eu gweld wrth gyflwyno swyddogaeth adolygu ar gyfer adolygiadau annibynnol o benderfyniadau dan weithdrefnau cwyno'r asiantaethau (gan gynnwys ceisiadau am ddatgeliadau mabwysiadu)?

Ar gyfer unrhyw heriau, nodwch sut y gellid eu goresgyn?

2. Os ydych chi'n ddarparwr gwasanaeth maethu neu fabwysiadu, sut ydych chi'n rhagweld y bydd elfen ymchwilio annibynnol y broses yn gweithio yn eich sefydliad?

3. Ydych chi'n meddwl y bydd y newid hwn yn fwy cost effeithiol ac yn llai biwrocraidaidd na'r swyddogaeth IRM bresennol? Rhowch resymau.

--

4. A fydd y weithdrefn newydd hon yn cynnig cysondeb ar draws darparwyr? Os na fydd, beth fyddai modd ei wneud i sicrhau cysondeb?

Bydd:
Na fydd:

5. Fel defnyddiwr gwasanaeth, ydych chi'n teimlo bod y newidiadau arfaethedig yn parhau i gynnig proses dryloyw ac annibynnol i chi adolygu penderfyniadau a wneir gan baneli maethu a mabwysiadu?

--

6. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch a fydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar benderfyniadau a wneir mewn perthynas â cheisiadau am ddatgeliad mabwysiadu (lle mae asiantaeth fabwysiadu yn cynnig bod gwybodaeth a ddiogelir o gofnodion mabwysiadu yn cael ei datgelu neu ei dal yn ôl, yn groes i farn y sawl mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef)?

--

7. Byddem yn hoffi clywed eich barn ar yr effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau

allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

- 8. Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y cynigion er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol o ran: -**
- **cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**
 - **peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**
 - **dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**
 - **peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

- 9. Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach am y gofynion arfaethedig a nodir yn Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion Penodedig) (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2020?**
Y CAMAU NESAF

Defnyddir y data o'ch ymateb fel sail i'r cyfarwyddyd polisi ar gyfer Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion Penodedig) (Diwygiadau a Dirymu Amrywiol) (Cymru) 2020.